HYSBYSIAD O GYNNIG

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(Sealand Road, Seahill Road a Old Sealand Road, Sealand)
(Terfyn Cyflymder) (Diwygiad) 201x

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn ei fod yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a phob pŵer galluogi arall a fydd yn cael yr effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Sealand Road, Seahill Road a Old Sealand Road, Sealand) (Terfyn Cyflymder) 2015, fel petai'r drydedd Atodlen i'r Gorchymyn yn cael ei ddileu a'i ddisodli gydag:-

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder 50mya

A548 Sealand Road
O bwynt 150 metr i'r dwyrain o'r gyffordd gyda Manor Road, i gyfeiriad y gorllewin at bwynt 100 i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gyda Western Avenue, Blacon.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â chynllun yn dangos y darnau o ffyrdd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â nhw a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah, CH5 4HA yn ystod oriau swyddfa neu mae modd eu gweld ar ein gwefan yn www.Flintshire.gov.uk > Resident > Roads, Streets and Travel > Traffic Regulation Orders neu gellir gwneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod, (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/JB/A548/40mph) erbyn dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

Dyddiedig dydd Gwener y diwrnod 1af o Orffennaf 2022

Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Sealand Road, Seahill Road ac Old Sealand Road, Sealand) (Terfyn Cyflymder) (Diwygiad) 202x

GORCHYMYN

fel y nodir oddi mewn

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint
(Sealand Road, Seahill Road ac Old Sealand Road, Sealand)
(Terfyn Cyflymder) (Diwygiad) 202x

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Bydd Gorchymyn Sir y Fflint (Sealand Road, Seahill Road ac Old Sealand Road, Sealand) (Terfyn Cyflymder) 2015 yn gweithredu fel bo trydydd Atodlen y Gorchymyn yn cael ei dileu a'i disodli gyda:-

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder 50mya

A548 Sealand Road
O bwynt 150 metr i'r dwyrain o'i chyffordd gyda Manor Road, i gyfeiriad y dwyrain hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gyda Western Avenue, Blacon.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Daw'r Gorchymyn i rym ar XX 202X a chyfeirir ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Sealand Road, Seahill Road ac Old Sealand Road, Sealand) (Terfyn Cyflymder) (Diwygiad) 202x

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR)
SIR Y FFLINT ar hyn y XX)
diwrnod hwn o XX 202X ym mhresenoldeb:-)

Y CADEIRYDD

RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)

DATED 10 MARCH 2015

The Flintshire County Council
(Sealand Road, Seahill Road and Old Sealand Road, Sealand)
(Speed Limit) Order 2015

O R D E R
as within

Gareth Owens
Head of Legal and
Democratic Services
Flintshire County Council
County Hall
Mold
Flintshire CH7 6NR

DMC/T470282

The Flintshire County Council
(Sealand Road, Seahill Road and Old Sealand Road, Sealand)
(Speed Limit) Order 2015

Flintshire County Council (hereinafter referred to as "the Council") in exercise of its powers under Section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (which said Act of 1984 is hereinafter referred to as "the Act of 1984") and of all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of the Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act of 1984 hereby makes the following Order:-

1. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of road specified in Schedule 1 to this Order.

2. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of roads specified in Schedule 2 to this Order

3. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of road specified in Schedule 3 to this Order

4. In this Order except where otherwise stated any reference in this Order to a numbered Article or Schedule is a reference to the Article or Schedule bearing that number in this Order.

5. The Interpretation Act 1978 shall apply for the interpretation of this Order as it applies for the interpretation of an Act of Parliament.

6. The Order shall come into operation on 13 March 2015 and may be cited as the Flintshire County Council (Sealand Road, Seahill Road and Old Sealand Road, Sealand) (Speed Limit) Order 2015.

SCHEDULE 1
Extension of existing 30 mph Speed Limit

Old Sealand Road
From a point 180 metres south east of its junction with Seahill Road for a distance of 38 metres;

SCHEDULE 2
40 mph Speed Limit

Old Sealand Road
From its junction with A548 Sealand Road, to its junction with Seahill Road for a distance of 162 metres;

Seahill Road
From its junction with the Old Sealand Road to the boundary of Flintshire with Cheshire West and Chester a point approximately 266 metres north east of its junction with Elm Tree Road;

SCHEDULE 3
50 mph Speed Limit

A548 Sealand Road
From a point 150 metres east of its junction with Manor Road, in an easterly direction to the boundary of Flintshire with Cheshire West and Chester.

THE COMMON SEAL of FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL was hereunto affixed the 10 March 2015 in the presence of:-)

CHAIR

CHIEF OFFICER (GOVERNANCE)

Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint
(Sealand Road, Seahill Road ac Old Sealand Road, Sealand)
(Terfyn Cyflymder) (Diwygiad) 202x

DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Cynigir diwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Sealand Road, Seahill Road ac Old Sealand Road, Sealand) (Terfyn Cyflymder) 2015, gan ostwng y terfyn cyflymder presennol o 50mya i 40mya ar yr A548 Sealand Road, Blacon. Bydd yn cael ei hysbysebu fel Gorchymyn ar wahân -

Bydd y terfyn cyflymder arfaethedig o 40mya yn weithredol o bwynt 100 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gydag Western Avenue, Blacon, i ffin Sir y Fflint gyda Gorllewin Swydd Gaer a Chaer.

Mae'r Awdurdod yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darparu symudiad cyfleus a diogel i gerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.